**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022 DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: S. HEALY (CADEIRYDD)

Councillors M. Cook (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
G. A. Davies
J. Millard
M. Moore
J. P. Morgan
G. Paulsen
S. Thomas
J. Holt
J. Hill
J. C. Morgan

WITH:

| |
|---|
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Andrew Parker (Swyddog) |
| David Arnold (Swyddog) |
| Sarah King (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Dywedwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd M. Cross<br>Cynghorydd H. Trollope<br>Cynghorydd C. Meredith | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant. | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR CRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021.<br><br>Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ar y cynllun peilot Blynyddoedd Cynnar a thystiolaeth i gefnogi o’r cynllun peilot a gynhaliwyd yn Cwm, dywedwyd y cysylltir â’r swyddog perthnasol i roi diweddariad ar y ddalen weithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i weithredu fel hyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau’r cofnodion. | |
| **No. 5** | **ASESIAD LLESIANT RHANBARTHOL GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Phartneriaethau fod yr adroddiad yn amlinellu drafft ymgynghori Asesiad Llesiant Rhanbarthol Gwent yn unol ag amserlenni statudol a hysbysodd Aelodau am y broses ymgynghori a’r camau nesaf ar gyfer y drafft Asesiad Llesiant Lleol Gwent. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth y darperir trosolwg o’r adroddiad ynghyd â’r asesiad a fanylir yn yr atodiad i’r adroddiad.<br><br>Ar y pwynt hwn, rhoddodd y Swyddog Polisi drosolwg i’r Pwyllgor o’r cwmpas a’r cefndir a fanylir yn yr adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y ddogfen a gyflwynwyd yn fersiwn drafft, felly bod bylchau i'w llenwi cyn cwblhau'r asesiad.<br><br>Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth, Polisi a Phartneriaethau drosolwg fanwl o ddrafft Asesiad Llesiant Gwent ac amlinellu'r gwaith a wnaed ar draws partneriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thynnodd sylw at y meysydd allweddol o effaith, fel sy'n dilyn:-<br><br>Llesiant Cymdeithasol – Amddifadedd<br>Llesiant Cymdeithasol – Tai<br>Llesiant Cymdeithasol – Iechyd<br>Llesiant Cymdeithasol – Diogelwch y Gymuned<br>Llesiant Cymdeithasol – Addysg<br>Llesiant Cymdeithasol – Trafnidiaeth<br><br>Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau.<br><br>Cododd Aelod bryder ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus a theimlai y dylai mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn flaenllaw yn yr asesiad hwn. Nododd y Rheolwr Gwasanaeth fod yr wybodaeth a gyflwynwyd yn ddetholiad o faterion o bob rhan o'r rhanbarth ac os y teimlai'r Pwyllgor fod angen ystyried hyn fel ymateb i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol fel rhan o'r asesiadau terfynol.<br><br>Dywedodd yr Aelod fod trafnidiaeth yn bwysig tu hwnt yn ein cymunedau a chytunodd fod yr ardal a'r problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn her fawr i bobl. Mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol sicrhau fod gwaith yn mynd rhagddo gyda byrddau trafnidiaeth eraill i gydweithio er mwyn datrys y problemau lleol hyn ac ymchwilio cyfleoedd. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth fod meddwl cydlynus yng nghyswllt trafnidiaeth yn hollbwysig a chytunodd i nodi'r sylwadau fel rhan o'r sgwrs gan y Pwyllgor.<br><br>Ychwanegodd y Swyddog Polisi fod y sleidiau yn rhoi trosolwg lefel uchel a dywedodd fod trafnidiaeth yn rhan o benodau llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr asesiad, felly cytunodd fod angen dull gweithredu cydlynus i daclo'r materion.<br><br>Aeth y Rheolwr Gwasanaeth ymlaen gyda throsolwg o'r drafft | |

| | | |
|---|---|---|
| | asesiad, fel sy’n dilyn:-<br><br>Llesiant Economaidd – Incwm<br>Llesiant Economaidd – Cyflogaeth<br><br>Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ar y pwynt hwn, felly symudodd y Rheolwr Gwasanaeth i’r adran nesaf fel sy’n dilyn:<br><br>Llesiant Economaidd – Cynefinoedd<br>Llesiant Economaidd – Newid Hinsawdd a Risg<br>Llesiant Economaidd – Sero-net a Byw Un Blaned<br><br>Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ar y pwynt hwn, felly aeth y Rheolwr Gwasanaeth ymlaen i’r adran nesaf fel sy’n dilyn:<br><br>Llesiant Diwylliannol<br><br>Daeth y Rheolwr Gwasanaeth â’r trosolwg o’r drafft asesiad i ben a nododd yr heriau. Cafodd yr amserlenni eu hamlinellu ymhellach yn nhermau’r broses ymgynghori a dywedwyd y byddai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol yn ystyried canlyniadau’r ymgynghoriad ym mis Chwefror cyn eu cytuno a’u cyhoeddi erbyn 5 Mai 2022.<br><br>Croesawodd Aelod y drafft Asesiad a chytunodd gyda’r pryderon yng nghylch trafnidiaeth a gofynnodd i’r pryderon hyn gael eu hadlewyrchu yn yr ymateb i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Dilynodd trafodaeth am yr heriau trafnidiaeth gyhoeddus ym Mlaenau Gwent. Gobeithid na fyddai Blaenau Gwent ar ei cholled oherwydd y caiff ardaloedd mwy o fewn y rhanbarth eu hystyried yn y drafft Asesiad. Nododd Aelod y byddai prif ardaloedd datblygu economaidd ar hyd ffordd Blaenau’r Cymoedd sy’n cynnwys Blaenau Gwent a byddai’n rhwyddach i gysylltiadau trafnidiaeth mwy i adeiladu’r economi, fodd bynnag mae’r prif feysydd consyrn am yr ardaloedd rhwng trefi a phentrefi.<br><br>Teimlai Aelod arall fod y Fwrdeistref hon ar ei cholled mewn rhai achosion, felly mae’n bwysig fod cynllunio cydlynol ar gyfer bysus a threnau hyd yn oed yn yr ardaloedd llai. Mae uchelgais i symud pobl ymaith o deithio mewn car, fodd bynnag gallai gymryd cwpl o oriau ddim ond i deithio i dref arall ar drenau a bysus. Os na chaiff y problemau hyn eu trin, byddai pobl yn parhau i deithio mewn car gan ei fod yn cymryd llai o amser. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd y Rheolwr Gwasanaeth – Partneriaethau a Pholisi yr heriau ym Mlaenau Gwent a dywedodd, er fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi symud yn rhanbarthol, bod y Bartneriaeth Llesiant Lleol wedi dod yn ei le. Byddai'r Bartneriaeth yn anelu i fynd i'r afael â'r ardaloedd penodol ar lefel Blaenau Gwent.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd G. Paulsen y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Cytunodd Aelod arall gyda'r pryderon a wnaed yng nghyswllt trafnidiaeth a nododd sylwadau Aelodau mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor sy'n adleisio'r pryderon a godwyd.<br><br>Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau y sylwadau ac yn nhermau Blaenau Gwent ar ei cholled, dywedodd fod Blaenau Gwent ar frig nifer o dablau.<br><br>Dilynodd trafodaeth bellach am greu'r Cydbwyllgorau Corfforedig a fyddai'n dechrau ym mis Mehefin. Byddai'r Cydbwyllgor Corfforedig hwn yn cynnwys ardal De Ddwyrain Cymru ac yn edrych ar gysylltiadau i Gwent. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau fod angen i bob corff gydweithio i sicrhau fod gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus integredig gadarn o amgylch Gwent ac o fewn ardaloedd bach. Mae'n hollbwysig fod plant a phobl ifanc yn medru cael mynediad i drafnidiaeth a byddai'n galluogi cenhedloedd hŷn sy'n ynysig i ymweld â threfi agos yn gyfleus. Cyfeiriwyd at y drafodaethau yn y Cyngor llawn a gobeithid y gellid dod rhai o'r agweddau strategol a godwyd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd J.C. Morgan y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Nododd Aelod y dull cydweithio ar draws Gwent ac edrychai ymlaen at weld sut y mae'n datblygu. Cytunodd yr Aelod fod yr henoed yn anffodus yn dioddef yn wael o ran bod yn ynysig oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Cyfeiriodd yr Aelod at wasanaeth bws Fflecsi sy'n gweithredu o fewn y Fwrdeistref sy'n anodd i'r henoed ei gyrchu a nododd nifer o broblemau a dynnwyd i'w sylw fel Aelod etholedig. Credai'r Aelod y byddai'r gwasanaeth yn fwy effeithlon pe byddai'n fwy hyblyg.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd M. Moore y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Asesiad gael ei rannu gyda phob Aelod etholedig unwaith y cafodd ei gwblhau.<br><br>Dymunai'r Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaeth a'r Swyddog Polisi am yr holl waith a wnaed ar y drafft Asesiad. Datganodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor hefyd eu diolch i'r swyddogion.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi sylwadau penodol ar ddrafft Asesiad Llesiant Gwent i'w ystyried gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent cyn ei gymeradwyo (Opsiwn 2). | |